**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

CLA(4)-11-11

**CLA52**

**Adroddiad drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011**

**Gweithdrefn:** Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cydgysylltu gofal a chynllunio gofal a thriniaeth i gleifion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

**Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn drafft hwn.

**Rhinweddau: craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.3(ii) (ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad) bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o reoliadau sy'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddwyd iddynt gan ddarpariaethau ym Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ("y Mesur") a'u bwriadwyd i ddatblygu a gwella gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

O dan Ran 2 o'r Mesur, bydd cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yng Nghymru yn cael cydgysylltydd gofal penodol. Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer y meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir penodi person yn gydgysylltydd gofal. Mae'r Mesur hefyd yn darparu y bydd darparwyr gwasanaethau (Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol) yn gweithredu mewn modd cydgysylltiedig i wella effeithiolrwydd y gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir i'r claf.

Mae'r Mesur yn sicrhau y bydd pob claf unigol yn cael cynllun gofal a thriniaeth wedi'i teilwra a ddatblygir gan y cydgysylltydd gofal mewn partneriaeth â'r claf a bydd y cydgysylltydd gofal yn goruchwylio'r cynllun gyda golwg ar gyflawni'r canlyniadau y mae'r gwasanaethau i'r claf wedi'u cynllunio ar gyfer eu cyflawni.

Mae’r darpariaethau hyn yn unigryw i Gymru.

O dan y weithdrefn gadarnhaol y mae’r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud ac felly cânt eu trafod gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**14 Tachwedd 2011**